HYBU AC AMDDIFFYN

Yn ogystal â chefnogi'r Frenhines wrth iddi gyflawni ei dyletswyddau fel Pennaeth y Wladwriaeth a gweithredu fel entrepreneur elusennol, mae Tywysog Cymru hefyd yn ceisio hybu ac amddiffyn traddodiadau, rhinweddau a rhagoriaeth y wlad. Mae'r gwaith yma'n cynnwys tynnu sylw at gyflawniadau neu faterion a allai, heb ei gefnogaeth, gael ychydig iawn o sylw, cynorthwyo cymunedau gwledig Prydain, ac annog pobl o wahanol ffydd a chymunedau i fod yn fwy goddefgar a deall ei gilydd yn well.

CHWITH
Disgyblion Ysgol Westonbirt
yn Sir Gaerloyw yn croesawu
Tywysog Cymru a Duges
Cernyw wrth iddyn nhw
gyrraedd.

TYNNU SYLW AT RAI MATERION

Dywedodd y Tywysog fod gan swyddogion yr heddlu “synnwyr cadarn o ddyletswydd i eraill, i ofalu amdanyn nhw, i’w helpu nhw, ac i ddiogelu cymdeithas a’r rhyddid yr ydyn ni wedi ymgynefino ag e.”

Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, aeth Tywysog Cymru, gyda chymorth Duges Cernyw, ati unwaith eto i geisio hybu ac amddiffyn yr agweddau gorau ar Brydain a’i phobl. Mae’r gwaith yma’n aml yn golygu symbylu wrth geisio cyflawni newidiadau, creu proses o gyd-drafod, neu dynnu sylw at faterion sydd heb gael sylw.

Cyflawniadau a gwasanaeth

Mae Eu Huchelderau Brenhinol yn cymryd rhan mewn digwyddiadau’n rheolaidd er mwyn tynnu sylw at gyflawniadau a chyfraniadau at fywyd y genedl. Yn ystod y flwyddyn, aeth y Tywysog a’r Dduges i sawl ymrwymiad a oedd yn cydnabod gwaith y gwasanaethau argyfwng.

Ym mis Mehefin 2005, yn y gwasanaeth yn Hendon sy’n cael ei gynnal bob blwyddyn i goffáu’r 653 o swyddogion Heddlu’r Metropolitan a fu farw wrth eu gwaith yn Llundain er 1829, talodd y ddau deyrnged i aberthau swyddogion yr heddlu. Ar ôl y gwasanaeth, dywedodd y Tywysog fod gan swyddogion yr heddlu “synnwyr cadarn o ddyletswydd i eraill, i ofalu amdanyn nhw, i’w helpu nhw, ac i ddiogelu cymdeithas a’r rhyddid yr ydyn ni wedi ymgynefino ag e.”

Ym mis Mawrth 2006, aeth Eu Huchelderau Brenhinol i helpu i anrhydeddu Heddlu Dorset 150 mlynedd ers ei sefydlu. Yn ystod yr ymweliad, cafodd y Tywysog a’r Dduges eu tywys o gwmpas ystafell reoli’r heddlu sy’n cael 94,000 o alwadau argyfwng y flwyddyn, a’r biwro ddamweiniau arbennig. Dywedodd y Tywysog wrth swyddogion yr heddlu yno: “Rydyn ni’n dibynnu ar gynifer ohonoch chi. Rwy’n aml yn meddwl ein bod ni’n cymryd eich gwasanaeth syfrdanol chi’n ganiataol.”

Mae Eu Huchelderau Brenhinol hefyd yn cymryd rhan mewn ymrwymiadau sy’n anrhydeddu gwaith gwirfoddolwyr, yn arbennig y rheini sy’n gweithio mewn meysydd sydd yn aml yn mynd heb eu cydnabod yn iawn. Ym mis Tachwedd 2005, treuliodd y Dduges ddiwrnod yn Wiltshire er mwyn mynd i weld tri grŵp o wirfoddolwyr: Cylch Chwarae Cyfleoedd Springboard, elusen sy’n cynnig amgylchedd diogel ac ysgogol i blant ag anghenion arbennig; Ymddiriedolaeth Bobby Van, elusen sy’n anfon faniau i gartrefi pobl sydd wedi dioddef trais i atgyweirio drysau a ffenestri a’u helpu’n gyffredinol i deimlo’n ddiogel eto; a chlwb ieuenctid yn Atworth sy’n cael ei redeg gan Youth Action Wiltshire (YAW), elusen sy’n cynnig chwaraeon, gweithgareddau creadigol a phrojectau cynhwysiant cymdeithasol i bobl ifanc. Mae’r Dduges yn noddi Ymddiriedolaeth Bobby Van ac YAW fel ei gilydd.

Yn yr un mis, aeth Ei Huchelder Brenhinol i ymweld â Chlwb Preswyl y Soroptimyddion yn Llundain i ddysgu am waith y grŵp anghyfarwydd yma. Mudiad rhyngwladol yw'r Soroptimyddion Rhyngwladol (*Soroptimist International*). Mae 95,000 o wragedd yn perthyn i'r mudiad sy'n hybu hawliau dynol a statws merched. Yn ystod yr ymweliad, esboniodd Gloria Proops, un o'r Soroptimyddion, fod aelodau'r mudiad yn "ferched sy'n malio llawer am yr hyn sy'n digwydd yn y byd, o'r economi i ddatblygu cymdeithasol, yr amgylchedd a hawliau dynol."

Ym mis Rhagfyr 2005, cafodd y Dduges gyfle i gwrdd rhai o blant dewraf Prydain pan gyflwynodd medaliynau aur wedi'u hysgythru i'r 10 plentyn a enillodd wobrwyon Plant o Blwc mewn seremoni yn Abaty Westminster. Dywedodd Ei Huchelder Brenhinol fod cwrdd y plant wedi bod yn "brofiad a ddangosodd iddi beth sydd wir yn cyfrif". Roedd pob un o'r plant wedi bod yn arwrol neu'n ddewr yn wyneb anabledd neu salwch neu trwy ddangos ymroddiad llwyr i eraill heb eu hystyried eu hunain.

Cymunedau gwledig

Fel ffermwr ei hun, mae'r Tywysog yn ymboeni'n ddwys am gefn gwlad Prydain ac am les y rheini sy'n byw ac yn gweithio ynddo. Mae cynnal sector amaethyddol iach yn hanfodol i'r wlad, nid dim ond am fod y dirwedd a'r dull o'i rheoli'n dibynnu ar y wybodaeth mae cymunedau ffermio wedi'i chasglu dros y canrifoedd, ond hefyd am fod natur gymdeithasol cefn gwlad yn dibynnu ar sylfaen ffermio gadarn.

Bu cynnig tai fforddiadwy i deuluoedd cymunedau gwledig yn fater arall o bwys mawr i'r Tywysog ers sawl blwyddyn. Ym mis Chwefror 2006, aeth i ddigwyddiad yn Pooley Bridge, Cymbria, lle'r aeth ati i lansio canllawiau dylunio newydd ar gyfer tai fforddiadwy yng nghefn gwlad. Mae'r canllawiau wedi'u bwriadu ar gyfer adeiladwyr tai, cymdeithasau tai, penseiri, syrfewyr, awdurdodau lleol a chymunedau.

Yn ystod ei ymweliad, cafodd y Tywysog gyfle i gwrdd Deborah Lewis, un o drigolion Pooley Bridge. Llwyddodd Ms Lewis i symud yn ôl i'w hardal enedigol o Glasgow ar ôl i gynllun tai fforddiadwy gynnig chwe thŷ newydd yno. Cafodd Ei Uchelder Brenhinol wybod sut roedd Ms Lewis, athrawes dan hyfforddiant, yn rhentu fflat dwy lofft newydd yn y pentref a fyddai wedi bod yn werth £250,000 ar y farchnad agored. Fel yr eglurodd hi: "Mae prisiau tai'n arswydus o uchel yma. Ond, heb gynlluniau fel hyn, bydd pentrefi gwledig fel yr un yma'n mynd â'i ben iddo mewn dim amser."

TYNNU SYLW AT RAI MATERION PARHAD

Yn ystod ei ddiwrnod yn Cymbria, aeth y Tywysog hefyd i Appleby i agor canolfan iechyd gymunedol newydd, ac i Tebay i agor safle torri cig a gafodd ei adeiladu gan gydweithfa o ffermwyr sydd bellach yn ei redeg. Mae'r safle'n cynnig cyfle i ffermwyr werthu eu cig yn uniongyrchol i gwsmeriaid – a chael gwell pris na phris yr archfarchnadoedd. Disgrifiodd Ei Uchelder Brenhinol y project fel "gwir batrwm o obaith" ar gyfer ffermwyr sy'n cael trafferth cael dau ben llinyn ynghyd.

Mae'r Tywysog yn awyddus i gynorthwyo isadeiledd traddodiadol bywyd cefn gwlad. Ym mis Tachwedd 2005, agorodd farchnad newydd ar gyfer da byw yn Cirencester, Sir Gaerloyw, fel arwydd o'i gefnogaeth i fenter sy'n allweddol i economi amaethyddol yr ardal. Roedd llawer o ffermwyr yr ardal a Chynllun Menter Wledig y Llywodraeth yn cefnogi'r fenter. Ar ôl cael ei dywys o gwmpas y farchnad a helpu i werthu da byw yn yr arwerthiant, diolchodd y Tywysog i'r ffermwyr am eu gwaith. Dywedodd wrthyn nhw: "Oni bai amdanoch chi, byddai cefn gwlad Prydain yn edrych yn wahanol iawn, a fyddai pobl sy'n ei fwynhau ddim yn gweld yr un math o le."

Ffydd a chymunedau ethnig

Bu annog pobl o wahanol gymunedau a ffydd ym Mhrydain i fod yn fwy goddefgar yn un o nodweddion gwaith y Tywysog ers tro byd. Traddododd Ei Uchelder Brenhinol ddwy araith bwysig ynglŷn â'r berthynas rhwng pobl o wahanol ffydd yn ystod ei daith dramor yng ngwanwyn 2006 (cyfeiriwch at dudalennau 5 a 15). Ac ym mis Mehefin 2006, cyhoeddodd Prifysgol Maryland draethawd gan y Tywysog o'r enw "*Religion – The Ties That Bind*" fel rhan o'i chyfres *"Alliance of Civilizations"*.

Cyflawnodd y Tywysog a'r Dduges nifer o wahanol ymrwymiadau yn ystod 2005-06 i hybu cytundeb rhwng grwpiau crefyddol ac ethnig. Ym mis Ionawr 2006, aeth Ei Uchelder Brenhinol i Sir Efrog i lansio Gŵyl y Diwylliannau Mwslim, digwyddiad sy'n ceisio helpu trigolion y DU i ddod i ddeall Islam. Dechreuodd yr ŵyl genedlaethol, a fydd yn teithio o gwmpas y wlad yn ystod 2006 a 2007, wrth i'r Tywysog agor arddangosfa 'Y Palas a'r Mosg' yn Orielau'r Mileniwm yn Sheffield.

Ym mis Mawrth 2006, aeth Ei Uchelder Brenhinol i Sir Bedford i weld projectau cymunedol sydd â'r nod o ddod â gwahanol ddiwylliannau at ei gilydd. Un o'r projectau oedd Menter Queen's Park yn Bedford sy'n ceisio dod â Christnogion, Mwslimiaid a Sikhiaid yr ardal at ei gilydd mewn projectau integreiddio ac adfywio. Un o arweinwyr y Sikhiaid a fu'n ymwneud â'r fenter oedd y Parchedig Jay MacLeod, ficer Eglwys All Saints. Wrth sôn am y Tywysog, dywedodd y Parchedig MacLeod: "O ran y ffordd y gall cymunedau o wahanol ffydd fod o fantais i bobl a'u tynnu at ei gilydd, mae e wir yn deall mewn ffordd nad yw'r llywodraeth yn deall weithiau."

Wythnos yn ddiweddarach, aeth y Dduges gyda'r Tywysog i weld un o demlau Sikhaidd mwyaf Prydain, y Gurdwara Sri Guru Singh Sabha yn Hounslow, gorllewin Llundain. Y nod oedd dathlu Diwrnod y Gymanwlad a gŵyl Hola Mohalla. Aeth Eu Huchelderau Brenhinol i gwrdd aelodau hŷn a gwirfoddolwyr y deml, ac i sgwrsio â grŵp o blant un o ysgolion cynradd Newbury, Berkshire, a oedd yn ymweld â'r deml er mwyn dysgu am ffydd y Sikhiaid.

BOMIAU TERFYSGWYR YN LLUNDAIN

Ar ôl sylweddoli bod y terfysgwyr ifanc a laddodd eu hunain gyda'u bomiau yn Llundain ar 7 Gorffennaf 2005 yn dod o gymuned y Mwslimiaid ym Mhrydain, ysgrifennodd Tywysog Cymru erthygl ar 14 Gorffennaf ar gyfer papur newydd y *Daily Mirror*. Ynddi, soniodd am draddodiad balch y wlad o dderbyn cymunedau newydd a phobl o wahanol ffydd – traddodiad sydd wedi cyfoethogi cymdeithas Prydain trwyddi draw.

Ond rhybuddiodd: "Os ydyn ni am ddiogelu'r traddodiad yma, a'r rhinweddau Prydeinig, gwych eraill – sef bod yn gymdogion da, yn oddefgar ac yn ymarferol – rhaid i bawb ymatal rhag condemnio cymunedau'r Mwslimiaid ar sail gweithrediadau lleiafrif pitw a chythreulig o'r math yma. Yr un pryd, fy marn i yw bod dyletswydd ar bob gwir Fwslim i gondemnio'r erchyllterau yma a gwneud popeth posib i ddod o hyd i'r rheini yn eu mysg sy'n arddel ac yn arfer y fath gasineb a chwerwder."

Wrth gloi ei erthygl, bu'r Tywysog yn hael ei glod o ddewrder trigolion Llundain. "Cenhedlaeth neu ddwy ar ôl y Blitz, mae dewrder ac amharodrwydd pobl Llundain i ildio wedi ysbrydoli'r byd unwaith eto. Os gall amryw gymunedau'r Deyrnas Unedig fynd ati'n awr i weithio gyda'i gilydd, gallan nhw roi terfyn ar y drygioni a arweiniodd at y troseddau arswydus yma. Unwaith eto, byddwn ni wedi gosod esiampl ar gyfer hanes."

Ar ddiwrnod i anrhydeddu amrywiaeth y Gymanwlad a rôl y mudiad ym mywydau'r 53 gwlad sy'n perthyn iddo, aeth y Cwpl Brenhinol i seremoni liwgar yn Abaty Westminster. Yno, darllenodd y Tywysog neges y Frenhines ar Ddydd y Gymanwlad i gynulleidfa a oedd yn cynnwys Indarjit Singh, Cyfarwyddwr y Rhwydwaith o Fudiadau Sikh, Archesgob Gregorios o Thyateira a'r Bwdhydd Viloya Wimalajothi. Yn ddiweddarach yr un diwrnod, y Tywysog a'r Dduges oedd y gwesteion arbennig mewn derbyniad ar gyfer arweinwyr y Gymanwlad yn Nhŷ Marlborough, Llundain.

Ym mis Gorffennaf 2005, aeth y Tywysog a'r Dduges i Wasanaeth o Fawl a Diolchgarwch wrth i broject Tŵr y Mileniwm gael ei gwblhau yn Eglwys Gadeiriol St Edmundsbury yn Suffolk. Rhan o flwyddyn o weithgarwch oedd y gwasanaeth yma i glodfori'r gwaith ar dŵr newydd yr Eglwys Gadeiriol. Fel Llywydd y Project, bu gan y Tywysog ddiddordeb brwd yn y gwaith adeiladu, ac aeth i'r eglwys gadeiriol ddwywaith o'r blaen i weld sut roedd y gwaith yn dod yn ei flaen.

Gohebiaeth a chyfarfodydd

Yn ogystal â thynnu sylw'n gyhoeddus at faterion na fyddai fel arall yn cael sylw efallai, mae Ei Uchelder Brenhinol yn ysgrifennu'n breifat at Weinidogion y Llywodraeth, arweinwyr busnesau a phobl ddylanwadol eraill, ac yn eu cwrdd. Mae pynciau'r llythyrau a'r sgyrsiau'n amrywiol iawn ac yn cynnwys rhai y mae pobl eraill wedi'u codi neu rai sydd o ddiddordeb i'r Tywysog ei hun. Wrth wneud hyn, mae'r Tywysog bob amser yn gofalu osgoi materion y pleidiau gwleidyddol. Mae'n cyfathrebu â Gweinidogion fel aelod o'r Cyfrin Gyngor ac yn tynnu sylw at faterion y mae pobl wedi'u codi yn ystod ei ymweliadau o gwmpas y wlad.